



POLISI DI-FWG Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

NOD

Nod y polisi hwn yw gwarchod yr holl staff, plant, rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr rhag eu gadael yn ddiamddiffyn i fwg ail-law, ac i gynorthwyo cydymffurfio â darpariaeth ddi-fwg Deddf Iechyd 2006 a'r rheoliadau perthnasol i Gymru, a ddaeth i rym yn 2007.

COD YMARFER

Bydd y Person Cofrestredig/Cadeirydd yn sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu ac yn dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r Arweinydd am weithredu'r polisi o ddydd i ddydd. Rhaid i bob aelod o staff gadw at, a hwyluso gweithredu'r polisi. Bydd yr Arweinydd yn sicrhau bod pob aelod o staff, rhieni/gofalwyr/gwirfoddolwyr, myfyrwyr ar leoliad gwaith a chontractwyr yn ymwybodol o'r polisi ac yn o'u cyfrifoldebau i weithredu'r polisi. Bydd yr Arweinydd yn sicrhau hefyd fod pob aelod o staff newydd yn derbyn copi o'r polisi yn ystod yr hyfforddiant anwytho.

Bydd y cylch yn;

- sicrhau bod holl weithle ac amgylchedd y cylch yn ddi-fwg;
- sicrhau bod ysmegu wedi ei wahardd ar hyd a lled y gweithle i gyd heb unrhyw eithriad;
- sicrhau nad yw unrhyw aelod o staff sy'n ysmegu yn dod i gysylltiad â phlant y cylch tra bod ganddo/ganddi arogl mwg ar ei ddillad/dillad neu ei anadl/hanadl.

DIFFYG CYDYMFFURFIO

Gweithredir y camau canlynol os oes unrhyw un yn peidio cydymffurfio â'r polisi;

- tynnu sylw'r person at yr arwyddion 'Dim Ysmegu' a'i atgoffa ei fod yn troseddu. Gofyn yn gwrtais iddo beidio ag ysmegu.
- Cynghori'r person ei bod hi'n drosedd i Arweinydd y cylch a.y.b i ganiatáu i berson ysmegu ar neu o gwmpas yr adeilad.
- Egluro i'r person fod gan y cylch bolisi di-fwg i sicrhau amgylchedd diogel i'r holl oedolion a'r plant.
- Os caiff y rhybudd ei wrthod, gofyn iddynt adael yr adeilad ar unwaith.
- Os bydd aelod o staff yn gwrthod, bydd y Pwyllgor yn ystyried dilyn y Drefn Disgyblu ar gyfer ymddygiad annerbyniol yn y gweithle.
- Cadw cofnod o ddigwyddiadau o'r fath a'r canlyniadau.

Cymorth i roi gorau i ysmegu

Mae'r ffynonellau canlynol o gefnogaeth ar gael i ysmegwyr sydd eisiau rhoi'r gorau i ysmegu;

Fersiwn 1:1

Mehefin 2017 / Adolygiad Mehefin 2018

Ceri Rhiannon a Catrin Elis – Personau Cofrestredig : Rhian Jones a Sera Jones – Arweinyddion y Cylch

Elusen Gofrestredig Rhif 1094577



Mae Llinell Gymorth i Ysmygwyr Cymru (Ffôn:0800 169 0169) yn darparu cyngor a defnyddiau hunangymorth.Mae Gwasanaeth Atal Ysmygu Cymru Gyfan (Ffôn:0800 085 2219) hefyd yn cynnig cymorth a chyngor ar roi gorau i ysmygu.